CYFLWYNWYD YM MWRDD LLYWODRAETHWYR MET CAERDYDD: TACHWEDD 2021

**Prifysgol Metropolitan Caerdydd**

**Datganiad Blynyddol ar Uniondeb Ymchwil: 2021/22**

## 1. Cyflwyniad a Chefndir

1.1 Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn hollol ymroddedig i gefnogi'r lefelau uchaf o uniondeb ymchwil a llywodraethu yn ei holl weithgarwch ymchwil. Fel un sy'n derbyn cyllid cyhoeddus, mae Met Caerdydd yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod ei staff a'i myfyrwyr yn cynnal safonau rhagorol o ran ymarfer academaidd, uniondeb a gonestrwydd ym mhob agwedd ar ymchwil.

1.2 Fel llofnodwr i'r Concordat i Gefnogi Uniondeb Ymchwil, mae Met Caerdydd wedi ymrwymo i gynnal a chadw at yr ymrwymiadau sydd ynddo. Er mwyn gwella atebolrwydd a rhoi sicrwydd bod mesurau'n cael eu rhoi ar waith i gefnogi safonau uchel o uniondeb ymchwil, mae'r Concordat yn argymell bod cyflogwyr ymchwilwyr yn cyflwyno datganiad blynyddol byr i'w corff llywodraethu eu hunain sy'n:

- Rhoi crynodeb o'r camau gweithredu a'r gweithgareddau a wnaed i gefnogi a chryfhau dealltwriaeth o faterion uniondeb ymchwil, a'r defnydd ohonynt.
- Rhoi sicrwydd bod y prosesau sydd ganddynt ar waith ar gyfer delio â honiadau o gamymddwyn yn dryloyw, yn gadarn, yn deg, a'u bod yn parhau i fod yn briodol i anghenion y sefydliad.
- Rhoi datganiad lefel uchel ar unrhyw ymchwiliadau ffurfiol i gamymddwyn ymchwil a gafodd eu cynnal.

1.3 Dyma bumed datganiad blynyddol y Brifysgol ar Uniondeb Ymchwil ac mae'n ymwneud â blwyddyn academaidd 2021/22. Mae gwybodaeth fanwl am ddull cyffredinol y Brifysgol o ymdrin ag uniondeb ymchwil a chamymddwyn ymchwil wedi'i chynnwys yn Natganiad Blynyddol cyntaf y Brifysgol a gyhoeddwyd yn 2018 ac sydd ar gael ar wefan Met Caerdydd[1].

1.4 Yn unol ag argymhelliad y Concordat, bydd y datganiad hwn ar gael yn gyhoeddus ar wefan y Brifysgol.

## 2. Crynodeb o'r camau gweithredu a'r gweithgareddau a wnaed i gefnogi a chryfhau dealltwriaeth o faterion uniondeb ymchwil, a'r defnydd ohonynt

2.1 Mae uniondeb ymchwil wedi parhau'n ffocws allweddol i'r Brifysgol yn ystod blwyddyn academaidd 2021/22. Dyma'r gweithgareddau penodol a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Daeth y Brifysgol yn danysgrifiwr i Swyddfa Uniondeb Ymchwil y DU (UKRIO) ym mis Rhagfyr 2021 a daeth yn llofnodwr DORA ym mis Ebrill 2022.
- Mae gwaith ar ddatblygu modiwl hyfforddi moeseg ar-lein wedi parhau. Mae profion defnyddwyr wedi dechrau gyda'r bwriad o sicrhau bod y modiwl ar gael i'r holl staff yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf.

[1] http://www.cardiffmet.ac.uk/research/Documents/Research%20Integrity/Annual_statement_on_research_integrity_June18.pdf

- Diweddarwyd dogfennaeth yn ymwneud â chael cydsyniad gwybodus a thynnu cydsyniad yn ôl. Yn benodol, atgyfnerthwyd y cysylltiad rhwng y ddwy broses fel bod cyfranogwyr ymchwil yn ymwybodol o'u hawl i dynnu'n ôl, a goblygiadau hynny, ar yr adeg y maen nhw'n rhoi cydsyniad gwybodus.
- Mae gwaith ar y gweill i ddatblygu dull safonol o ymdrin â phrosesau moeseg yn ein Sefydliadau Partner Trawswladol.
- Mae'r Ffurflen Gais Moeseg wedi'i diweddaru er mwyn cydymffurfio â gweithdrefnau Atal diwygiedig.
- Daeth astudiaeth ddichonoldeb helaeth i ddatblygu system cymeradwyo ceisiadau moeseg ar-lein i ben yn ddiweddar gyda chanlyniad cadarnhaol. O ganlyniad, bydd gwaith i greu'r system yn dechrau yn ystod Hydref 2022.
- Mae archwiliad o brosesau moeseg Met Caerdydd wedi dechrau. Mae gwaith cychwynnol wedi arwain at ganlyniadau cadarnhaol yn gyffredinol a dim ond mewn un categori na chyrhaeddwyd y safon. Bydd rhaglen waith nawr yn cael ei datblygu.

## 3. Prosesau sydd ar waith ar gyfer delio â honiadau o gamymddwyn

3.1 Cafodd Polisi'r Brifysgol ar Gamymddwyn Ymchwil ei adolygu a'i ddiweddaru eleni a chafodd ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi ym mis Rhagfyr 2021. Er y canfuwyd bod fersiwn flaenorol y polisi'n parhau i fod yn addas at y diben ar y cyfan, gwnaed rhai mân newidiadau. Dyma oedden nhw:

- Diweddarwyd y cyfeiriad at bolisi a chanllawiau UKRI yn y maes hwn a chafodd testun llawn polisi UKRI ei gynnwys fel atodiad i bolisi Met Caerdydd. Cyfeiriwyd hefyd at Bolisi Atal Niwed (diogelu) mewn Ymchwil ac Arloesi UKRI.
- Diwygiwyd y broses ar gyfer achosion lle bo naill ai'r Cyfarwyddwr Ymchwil neu'r Cyfarwyddwr Dysgu yn gysylltiedig â'r honiad.
- Ychwanegwyd y cyfle i'r achwynydd ofyn am Swyddog Ymchwilio arall.

3.2 Mae'r broses ar gyfer ymchwilio i honiadau o gamymddwyn ymchwil ym Met Caerdydd yn parhau i fod yn broses dau gam:

- CAM 1: Gwneir honiadau o gamymddwyn ymchwil yn ysgrifenedig i'r Cyfarwyddwr Ymchwil (CY) a fydd yn cynnal ymchwiliad cychwynnol i benderfynu a oes achos prima facie o gamymddwyn. Lle nad yw'n briodol i'r CY gynnal yr ymchwiliad, caiff ei gynnal gan aelod arall o staff, a gaiff ei enwebu gan y DIG (Ymchwil).
- CAM 2: Lle tybir bod achos prima facie, bydd yr achos yn cael ei gyfeirio at y DIG (Ymchwil) a all gymryd camau yn syth neu a all gychwyn ymchwiliad pellach i'r honiad. Os bydd angen ymchwiliad pellach, caiff ei gynnal naill ai gan y DIG (Ymchwil) neu gan unigolyn priodol a benodir gan y DIG (Ymchwil).

3.3 Mae fersiwn gyfredol y Polisi Camymddwyn Ymchwil i'w weld ar Hyb Polisïau Met Caerdydd.

## 4. Datganiad ar unrhyw ymchwiliad ffurfiol i gamymddwyn ymchwil a gafodd ei gynnal

4.1 Ni dderbyniwyd unrhyw honiadau o dan Weithdrefn Camymddwyn Ymchwil y Brifysgol yn ystod 2021/22.